

08/09/2021

Noson wybodaeth Blwyddyn 7: Dydd Mawrth Medi 14eg

Annwyl Riant/Ofalwr,

Yn gyntaf, a gaf i achub ar y cyfle hwn i'ch croesawu chi a'ch plant i'r ysgol – gobeithio bod yr wythnos gyntaf yn mynd yn dda hyd yma!

Fel bob amser ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, hoffem gyfarfod â chi, rhannu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am fywyd ym mlwyddyn 7 ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych. Yn anffodus, ni allwn eich gwahodd chi i gyd i'r ysgol ar gyfer noson rieni oherwydd y pandemig byd-eang, ond yn lle hynny rydym wedi trefnu digwyddiad ar-lein ar eich cyfer a fydd yn eich helpu i gasglu gwybodaeth ac i gyfarfod â thiwtor dosbarth eich plentyn.

Bydd y "Noson Wybodaeth" hon ar gael i chi mewn dwy ran:

1. Bydd cyfres o glipiau fideo llawn gwybodaeth, wedi'u creu gan staff allweddol yn yr ysgol, yn cael eu rhyddhau ar wefan yr ysgol fore Mawrth Medi 14^{eg}. Gellir gwyllo'r rhain [YMA](#).
2. Yna bydd cyfle i chi gyfarfod yn uniongyrchol â thiwtor dosbarth eich plentyn cyn 4pm a 6pm yr un noson, trwy'r system gynadledda 'School Cloud' yr ydym wedi ei defnyddio'n llwyddiannus dros y misoedd diwethaf. Bydd hyn yn eich galluogi i sicrhau eu bod wedi ymgartrefu'n dda yn ystod yr wythnos gyntaf, ac i ofyn unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Ewch i <https://ysgolaberconwy.schoolcloud.co.uk> i archebu'ch apwyntiadau. Gellir eu trefnu o hanner dydd ddydd Mercher Medi 8^{fed} hyd hanner dydd ddydd Mawrth Medi 14^{eg}. Os hoffech wneud unrhyw newidiadau ar ôl y dyddiad hwn, cysylltwch â'r tîm bugeiliol.

[Mae canllaw byr ar sut i ychwanegu apwyntiadau wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn, yn ogystal â chod ymddygiad, yr ydym yn gofyn yn barchu ichi ei ddarllen a'i ddilyn ar y noson.](#)

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch i fewngofnodi:

Enw Cyntaf y Myfyriwr, Cyfenw'r Myfyriwr a'u Dyddiad Geni, yn ogystal â'ch manylion eich hun.

Rydym wedi postio amrywiaeth o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu gyda'r system hon ar ein gwefan yma : <https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/events/parents-evenings>, ond os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch chi, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar y noson!

Yn gywir iawn,

Ian Gerrard
Pennaeth